

The Project Gutenberg EBook of Yr Hwiangerddi, by Owen M. Edwards

Copyright laws are changing all over the world. Be sure to check the copyright laws for your country before downloading or redistributing this or any other Project Gutenberg eBook.

This header should be the first thing seen when viewing this Project Gutenberg file. Please do not remove it. Do not change or edit the header without written permission.

Please read the "legal small print," and other information about the eBook and Project Gutenberg at the bottom of this file. Included is important information about your specific rights and restrictions in how the file may be used. You can also find out about how to make a donation to Project Gutenberg, and how to get involved.

****Welcome To The World of Free Plain Vanilla Electronic Texts****

****eBooks Readable By Both Humans and By Computers, Since 1971****

*******These eBooks Were Prepared By Thousands of Volunteers!*******

Title: Yr Hwiangerddi

Author: Owen M. Edwards

Release Date: May, 2005 [EBook #8194]
[This file was first posted on June 30, 2003]
[Most recently updated: June 30, 2003]

Edition: 10

Language: Welsh

Character set encoding: US-ASCII

***** START OF THE PROJECT GUTENBERG EBOOK, YR HWIANGERDDI *****

Transcribed by David Price, email ccx074@coventry.ac.uk

YR HWIANGERDDI

RHAGYMADRODD.

Ambell orig daw hen hwiangerdd, fel su melodaidd o gartref pell a hoff, i'r meddwl. Daw un arall ar ei hol, ac un arall,--a chyda hwy daw adgofion cyntaf bore oes. Daw'r llais mwynaf a glywsom erioed i'n clust yn ol, drwy stormydd blynnyddoedd maith; daw cof am ddeffro a sylwi pan oedd popeth yn newydd a rhyfedd. A daw ymholi ond odid. Beth yw tarddle swyn yr hen gerddi hwian syml hyn? Pa nifer ohonynt fedraf? Pa nifer sydd ohonynt yn llenyddiaeth Cymru? A ydynt yn llenyddiaeth? Beth fu eu dylanwad ar fy mywyd? A adawsant ryw nod ar lenyddiaeth Cymru?

O ble y daethant? Y mae iddynt ddu darriad. Yn un peth,--y maent yn adlais o ryw hen bennill genid gyda'r delyn. Cofid y rhannau mwyaf melodaidd, rhyw seiniau fynnai aros yn y glust, gan fam neu forwyn, a byddent yn llais i lawenydd y galon wrth suo'r plentyn i gwsg. A ffynhonnell arall,--yr oedd y fam yn creu cerddi hwian, nid i wneyd i'r plentyn gysgu, ond i'w gadw'n ddiddig pan ar ddihun. Ac y mae cof gwlaid wedi trysori ymgais y mamau mwyaf athrylithgar.

Ar ei fysedd y sylwa plentyn i ddechreu. Hwy ddefnyddia'r fam yn deganau cyntaf. Rhoddir enwau arnynt,--Modryb 'y Mawd, Bys yr uwdd, Hirfys, Cwtfys, Bys bach, neu ryw enwau ereill. Gwneir iddynt chware a'u gilydd; llechant yng nghysegod eu gilydd, siaradant a'u gilydd; ant gyda'u gilydd i chware, neu i hel gwlan, neu i ladd defaid i'r mynydd. Yr oedd yr olaf yn fater crogi yr adeg honno, ac felly yr oedd y chware yn un pur gyffrous. Yr oedd i bob bys gymeriad hefyd; bys yr uwdd oedd y cynlluniwr, yr hirfys oedd y gweithiwr cryf eofn, y cwtfys oedd y beirniad ofnus, a'r bys bach, druan, oedd yn gorfol dilyn y lleill neu gario dwr. Yn llenyddiaeth gyntaf plentyn, y bysedd yw'r actors yn y ddrama.

Wedi'r bysedd, y traed oedd bwysicaf. Eid trwy yr un chware gyda bysedd y traed drachefn. A difyr iawn oedd pedoli, curo gwadnau'r traed bob yn ail, a phedoli dan ganu.

Nodwedd bennaf plentyn iach, effro yw, nas gall fod eiliad yn llonydd. Mae pob gewyn ynddo ar fynd o hyd. Ac y mae mynd yn yr hen hwiangerddi. Gorchest arwrol gyntaf plentyn yw cael ei ddawsio'n wyllt ar y lin. "Gyrru i Gaer" yw anturiaeth fawr gyntaf dychymyg y rhan fwyaf o blant Cymru. Ac y mae afiaeth mawr i fod ar y diwedd, i ddynodi rhyw drychineb ysmala,--dod adre wedi priodi, boddi yn y potes, neu dorri'r pynnaid llestri'n deilchion. Mae'r coesau a'r breichiau bychain i fynd ar eu gwyltaf, ac y mae edyn man dychymyg y plentyn yn chware'n wyllt hefyd.

Yr un cerddi hwian, mewn llais distawach, dwysach, a suai y plentyn i gwsg. Ai'r llong i ffwrdd yn ddistaw, carlamai'r cel bach yn esmywyth, doi'r nos dros furiau Caer.

A yw'r hwiangerddi'n fodion addysg? Hwy rydd addysg oreu

plentyndod. Am genedlaethau'n ol, ceisid dysgu plant yn yr ysgol o chwith. Ceisid eu cadw'n llonydd, a hwythau'n llawn awydd symud. Ceisid eu cadw'n ddistaw, a hwythau'n llawn awydd parablu. Dofi, distewi, disgyblu oedd o hyd. Erbyn hyn deallir egwyddorion dysgu plentyn yn well. Gellid rhoddi rhestr hir o athronyddion dysg plant, a dangos fel y gwelsant, o un i un yn raddol, wir ddull dysgu plant. A'r dull hwnnw yw,-- dull yr hwiangerddi. Dysgir y plentyn i astudio'i fysedd. Ca fynd ar drot ac ar garlam yr adeg y mynno. Ac ymhob cerdd, daw rhyw agwedd darawiadol ar y natur ddynol i'r golwg. Ei siglo'n brysur ar y glin i swn rhyw hen gerdd hwian,-- dyna faban ar ben gwir lwybr ei addysg. Ni fyddaf yn credu dim ddwed yr athronwyr am addysg babanod os na fedrir ei brofi o'r hwiangerddi. Ynddynt hwy ceir llais greddf mamau'r oesoedd; o welediad clir cariad y daethant, ac o afiaeth llawenydd iach.

A yw'r cerddi hwian yn llenyddiaeth? Ydynt, yn ddiameu. Y mae iddynt le mor bwysig mewn llenyddiaeth ag sydd i'r plentyn yn hanes dyn. Y mae llenyddiaeth cenedl yn dibynnu, i raddau mawr, ar ei hwiangerddi. Os mynnech ddeall nodweddion cenedl, y dull chwilio hawddaf a chyrfymaf a sicraf yw hwn,--darllennwch ei cherddi hwian. Os ydynt yn greulon ac anonest eu hysbryd, yn arw a chras, yn fawlyd a dichwaeth, rhaid i chwi ddarllen hanes cenedl yn meddu yr un nodweddion. Os ydynt yn felodaidd a thyner, a'r llawenydd afteithus yn ddiniwed, cewch genedl a'i llenyddiaeth yn ddiwylledig a'i hanes yn glir oddiwrth waed gwirion. Nis gall y Cymro beidio bod a chlust at felodi, wedi clywed y gair "pedoli" bron yn gyntaf un, a hwn yn gyntaf pennill,--

"Mae gen i ebol melyn,
Yn codi'n bedair oed;
A phedair pedol arian,
O dan ei bedwar troed."

Disgwylier i mi ddweyd, mae'n ddiau gennyf, ymhle y cefais yr holl gerddi hwian hyn. Gwaith araf oedd eu cael, bum yn eu casglu am dros ugain mlynedd. Ychydig genir yn yr un ardal, daw y rhai hyn bron o bob ardal yng Nghymru. Cefais hwy oddiwrth rai ugeiniau o gyfeillion caredig, yn enwedig pan oeddwn yn olygydd Cymru'r Plant. A chefais un fantais fawr yng nghwrs fy addysg,--nid oes odiad blentyn yng Nghymru y canwyd mwy o hwiangerddi iddo.

Hyd y gwn i; Ceiriog ddechreuodd gasglu hwiangerddi Cymru, yn yr Arweinydd, yn 1856 ac 1857. Condemnid y golygydd, Tegai, am gyhoeddi pethau mor blentynaidd. Ond daeth yr hanesydd dysgedig Ab Ithel, oedd wedi cyhoeddi'r Gododin ac yn parato'i'r Annales Cambriae y Brut y Tywysogion i'r wasg, i'w amddiffyn yn bybyr. Cawr o ddyn oedd Ab Ithel; y mae rhai o wyr galluocaf a mwyaf dysgedig Cymru, yn ogystal a phlant ysgol, wedi'm helpu innau i wneyd y casgliad hwn. Cyhoeddwyd casgliad Ceiriog wedi hyn yn "Oriau'r Haf." Nid oes ynddo ddim o gerddi hwian y De. Cyhoeddodd Cadrawd rai o gerddi hwian Morgannwg yn ei "History of Llangynwyd Parish" yn 1887. "Yn

ddiweddgarach cyhoeddwyd casgliad gyda darluniau prydferth yng
Nghonwy, {0a} a chasgliad gan Cadrawd gyda cherddoriaeth o drefniad
Mr. Harry Evans ym Merthyr Tydfil. {0b}

Nid y lleiaf o arwyddion da am ddyfodol Cymru yw fod yr hen
hwiangerddi swynol hyn i'w clywed eto yn ei chartrefi ac yn ei
hysgolion.

OWEN M. EDWARDS.

I. BACHGEN.

Y Bachgen boch-goch,
A'r bochau brechdan,
A'r bais dew,--
O ble doist ti?

II. YR EBOL MELYN.

Mae gen i ebol melyn,
Yn codi'n bedair ced,
A phedair pedol arian
O dan ei bedwar troed;
Mi neidia ac mi brancia
O dan y feinir wen,
Fe reda ugain milldir
Heb dynnu'r ffrwyn o'i ben.

III. GYRRU I GAER.

Gyrru, gyrru, gyrru i Gaer;
I briodi merch y maer;
Gyrru, gyrru, gyrru adre,
Wedi priodi ers diwrnodie.

IV. I'R FFAIR.

Ar garlam, ar garlam,
I ffair Abergel;,
Ar ffrwst, ar ffrwst,
I ffair Lanrwst.

V. DAU GI BACH.

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Dan droi'u fferrau, dan droi'u troed;
Dau gi bach yn dyfod adre,
Blawd ac eisin hyd eu coese.

VI. CERDDED.

Dandi di, dandi do,
Welwch chwi 'i sgidie newydd o?
Ar i fyny, ar i wareg,
Bydd y bachgen bach yn cerdded.

VII., VIII. Y CEFFYL BACH.

Ymlaen, geffyl bach,
I'n cario ni'n dau
Dros y mynydd
I hela cnau.

Ymlaen, geffyl bach,
I'n cario ni'n tri
Dros y mynydd
I hela cnu.

IX. SION A SIAN.

Sion a Sian, oddeutu'r tan,
Yn bwyta blawd ac eisin man.

X., XI. MYND I LUNDAIN.

Beti bach a finnau
Yn mynd i Lundain G'lanmai;
Os na chawn ni'r ffordd yn rhydd,
Mi neidiwn dros y cloddiau.

Beti bach a finne,
Yn mynd i Lundain Glame;
Mae dwr y mor yn oer y nos,
Gwell inni aros gartre.

XII. GWLAD BRAF.

Lodes ei mam, a lodes ei thad,
A fentri di gyda fi allan o'r wlad,
Lle mae gwin yn troi melinau,
A chan punt am gysgu'r borau?

XIII. CYSUR LLUNDAIN.

Mi af i Lundain Glamai
Os byddai byw ac iach,
Ni 'rosa i ddim yng Nghymru
I dorri 'nghalon bach;
Mae digon o arian yn Llundain,
A swper gyda'r nos,
A mynd i 'ngwely'n gynnar,
A chodi wyth o'r gloch.

XIV. LLONG YN MYND.

Si hei-li-lwli, 'r babi,
Mae'r llong yn mynd i ffwrdd;
Si hei-li-lwli, 'r babi,
Mae'r capten ar y bwrdd.

XV. DAFAD WEN. {14a}

Chwe dafad gorniog,
A chwe nod arni, {14b}
Ac ar y bryniau garw,
'Roedd rheiny i gyd yn pori;
Dafad wen, wen, wen,
Ie benwen, benwen, benwen;
Ystlys hir a chynffon wen,
Wen, wen.

XVI. IAR FACH DLOS.

Iar fach dlos
Yw fy iar fach i;
Pinc a melyn,
A choch a du.

XVII. GWCW FACH.

Gwcw fach, ond 'twyt ti'n ffolog,
Ffal di ral di rw dw ti rei tei O,
Yn canu 'mhlith yr eithin pigog,
Ffal di ral di rw dw ti rei tei O;
Dos i blwy Dolgellau dirion,
Ffal di ral di rw dw ti rei tei O;
Ti gei Iwyn o fedw gwyrdion,
Ffal di ral di rw dw ti rei tei O.

XVIII. LLYGOD A MALWOD.

Llygod man yn chwythu'r tan,
A'r malfod yn gweu melfed.

XIX. I'R DRE.

Gyrru, gyrru, drot i'r dre,
Dwad adre erbyn te.

XX. I GAERDYDD.

Gyrru, gyrru, i Gaerdydd,
Mofyn pwn o lestri pridd;
Gyrru, gyrru'n ol yn glau,
Llestri wedi torri'n ddau.

XXI. Y CEFFYL DU BACH.

Pandy, pandy, melin yn malu,
Gweydd yn gweu a'r ffidil yn canu;
Ceffyl bach du a'r gynffon wen
Yn cario Gwen a Mari.

XXII. I'R FFAIR.

Tomos Jones yn mynd i'r ffair,
Ar gefn ei farch a'i gyfrwy aur;
Ac wrth ddod adre cwyd ei gloch,
Ac yn ei boced afal coch.

XXIII. AR DROT.

'Ar drot, ar drot, i dy Shon Pot,
Ar whil, ar whil, i dy Shon Pil;
Ar garlam, ar garlam, i dy Shon Rolant,
Bob yn gam, bob yn gam, i dy f'ewythr Sam.

XXIV. AR GARLAM.

Iohn bach a finne,
Yn mynd i Lunden Glame;
Ac os na chawn ni'r ffordd yn glir,
Ni neidiwn dros y cloddie.

XXV. Y DDAFAD FELEN. {16}

Croen y ddafad felen,
Yn towlu'i throed allan;
Troed yn ol, a throed ymlaen,
A throed yn towlu allan.

XXVI. CNUL Y BACHGEN COCH.

"Ding dong," medd y gloch,
Canu cnul y bachgen coch;
Os y bachgen coch fu farw,
Ffarwel fydd i'r gwin a'r cwrw.

XXVII. DAU FOCHYN BACH.

Dacw tada'n gyrru'r moch,
Mochyn gwyn, a mochyn coch;
Un yn wyn yn mynd i'r cwt,
A'r llall yn goch a chynffon bwt.

XXVIII. COLLI ESGID.

Dau droed bach yn mynd i'r coed,
Esgid newydd am bob troed;
Dau droed bach yn dwad adre
Wedi colli un o'r 'sgidie.

XXIX. I'R FELIN.

Dau droed bach yn mynd i'r felin,
I gardota blawd ac eithin;
Dau droed bach yn dyfod adra,
Dan drofera, dan drofera.

XXX. IANTO.

Carreg o'r Nant,
Wnaiff lant;
Carreg o'r to,
Wnaiff o,--
lanto.

XXXI. DEIO BACH.

Deio bach a minne
Yn mynd i werthu pinne;
Un res, dwy res,
Tair rhes am ddime.

XXXII. Y BYSEDD.

Modryb y fawd,
Bys yr uwd,
Pen y cogwr,
Dic y peipar,
Joli cwt bach.

XXXIII. HOLI'R BYSEDD. {19a}

"Ddoi di i'r mynydd?" meddai'r fawd,
"I beth?" meddai bys yr uwd;
"I hela llwynog" meddai'r hir-fys; {19b}
"Beth os gwel ni?" meddai'r canol-fys;
"Llechu dan lechen" meddai bys bychan.

XXXIV. RHODD. {20}

Buarth, baban, cryman, croes;
Modrwy aur i'r oreu 'i moes.

XXXV., XXXVI. I'R YSGOL.

Mi af i'r ysgol fory,
A'm llyfyr yn fy llaw;
Heibio'r Castell Newydd,
A'r cloc yn taro naw;
Dacw mam yn dyfod,
Ar ben y gamfa wen,
"A rhywbeth yn ei barclod,
A phiser ar ei phen.

Mi af i'r ysgol fory,
A'm llyfyr yn fy llaw,
Heibio'r Sgubor Newydd,
A'r cloc yn taro naw;
O, Mari, Mari, codwch,
Mae heddyw'n fore mwyn,
Mae'r adar bach yn canu,
A'r gog ar frig y llwyn.

XXXVII. LLE DIFYR.

Mi fum yn gweini tymor
Yn ymyl Ty'n y Coed,
A'dyna'r lle difyrraf
Y bum i ynddo 'rioed;
Yr adar bach yn canu,
A'r coed yn suo yngyd,--
Fy nghalon fach a dorrodd,
Er gwaetha rhain i gyd.

XXXVIII. COLLI BLEW.

Pwsi mew, pwsi mew,
Lle collaist ti dy flew?
"Wrth gario tan
I dy modryb Sian,
Yng nghanol eira a rheu."

XXXIX. BODDI CATH.

Shincin Sion o'r Hengoed
Aeth i foddi cath,
Mewn cwd o lian newydd,

Nad oedd e damed gwaeth;
Y cwd a aeth 'da'r afon,
A'r gath a ddaeth i'r lan,
A Shincin Sion o'r Hengoed
Gas golled yn y fan.

XL. WEL, WEL.

"Wel, wel,"
Ebe ci Jac Snel,
"Rhaid i mi fynd i hel,
Ne glemio."

XLI., XLII. PWSI MEW.

Pwsi meri mew,
Ble collaist ti dy flew?
"Wrth fynd i Lwyn Tew
Ar eira mawr a rhew."

"Pa groeso gest ti yno.
Beth gefaist yn dy ben?"
Ces fara haidd colioig,
A llaeth yr hen gaseg wen."

XLIII. CALANMAI.

Llidiart newydd ar gae ceirch,
A gollwng meirch o'r stablau;
Cywion gwyddau, ac ebol bach,
Bellach ddaw Calanmai.

XLIV.--XLVI. DA.

Mae gen i darw penwyn,
A gwartheg lawer iawn;
A defaid ar y mynydd,
A phedair das o fawn.

Mae gen i gwpwrdd cornel,
A set o lestri te;
A dresser yn y gegin,
A phopeth yn ei le.

Mae gen i drol a cheffyl,

A merlyn bychan twt,
A phump o wartheg tewion,
Yn pori yn y clwt.

XLVII. DACW DY.

Dacw dy, a dacw do,
Dacw efail Sion y go;
Dacw Mali wedi codi,
Dacw Sion a'i freichiau i fyny.

XLVIII. COFIO'R GATH.

Ar y ffordd wrth fynd i Ruthyn,
Gwelais ddyn yn gwerthu brethyn;
Gofynnais iddo faint y llath,
Fod arnaf eisio siwt i'r gath.

XLIX. YSTURMANT. {27a}

(I ddynwared swn ysturmant.)
DWR glan gloew,
Bara chaws a chwrw.

L. YSGUTHAN. {27b}

(I ddynnwared Can Ysguthan.)
Cyrch du, du,
Yn 'y nghwd i.

LI. SIAN.

Sian bach anwyl,
Sian bach i;
Fi pia Sian,
A Sian pia fi.

LII. SIAN A SION.

Pan brioda Sion a minnau,
Fe fydd cyrn ar bennau'r gwyddau;

leir y mynydd yn bluf gwynion;
Ceiliog twrci fydd y person.

LIII. SION A SIAN.

Sion a Sian yn mynd i'r farchnad,
Sian yn mynd i brynnu iar,
A Sion i werthu dafad.

LIV. Y CROCHAN.

Rhowch y crochan ar y tan,
A phen y fran i ferwi;
A dau lygad y gath goed,
A phedwar troed y wenci.

LV. UST.

Ust, O taw! Ust, O taw,
Aeth dy fam i Loeger draw;
Hi ddaw adre yn y man,
A llond y cwd o fara cann.

LVI. CYSGU.

Bachgen bach ydi'r bachgen gore,
Gore, gore;
Cysgu'r nos, a chodi'n fore,
Fore, fore.

LVII. FFAFRAETH.

Hen fenyw fach Cydweli
Yn gwerthu losin du;
Yn rhifo deg am geiniog,
Ond un ar ddeg i fi.

LVIII. MERCH EI MAM.

Morfudd fach, ferch ei mham,
Gaiff y gwin a'r bara cann;

Hi gaiff 'falau per o'r berllan,
Ac yfed gwin o'r llester arian.

LIX. MERCH EI THAD.

Morfudd fach, merch ei thad,
Gaiff y wialen fedw'u rhad;
Caiff ei rhwymo wrth bost y gwely
Caiff ei chwipio bore yfory.

LX. COLLED.

Whic a whiw!
Aeth y barcud a'r ciw;
Os na feindwch chwi ato,
Fe aiff ag un eto.

LXI. ANODD COELIO.

Mae gen i hen iar dwrci,
A mil o gywion dani;
Pob un o rheiny yn gymaint ag ych,--
Ond celwydd gwych yw hynny?

LXII. DODWY DA.

Mae gen i iar a cheiliog
A brynnais i ar ddydd lau;
Mae'r iar yn dodwy wy bob dydd,
A'r ceiliog yn dodwy dau.

LXIII. BYW DETHEU.

Mae gen i iar a cheiliog,
A hwch a mochyn tew;
Rhwng y wraig a finne,
'R ym ni'n eig wneyd hi'n lew.

LXIV. DA.

Mae gen i ebol melyn

A merlen newydd spon,
A thair o wartheg blithion
Yn pori ar y fron;
Mae gen i iar a cheiliog,
Mi cefais er dydd lau,
Mae'r iar yn dodwy wy bob dydd
A'r ceiliog yn dodwy dau.

LXV. Go-Go-Go!

Shoni Brica Moni
Yn berchen buwch a llo;
A gafar fach, a mochyn,
A cheiliog, go-go-go!

LXVI. CYNFFON.

Mi welais nyth pioden,
Fry, fry, ar ben y goeden,--
A'i chynffon hi mas.

LXVII. TAITH DAU.

Dafi bach a minne,
Yn mynd i Aberdar,
Dafi'n mofyn ceiliog,
A minne'n 'mofyn giar.

LXVIII. YSGWRS.

"Wel," meddai Wil wrth y wal,
Wedodd y wal ddim wrth Wil.

LXIX. HOFF BETHAU.

Mae'n dda gan hen wr uwed a lla'th
Mae'n dda gan gath lygoden;
Mae'n dda gan 'radwr flaen ar swch,
Mae'n dda gan hwch y fesen.

LXX. CLOC.

Mae gen i, ac mae gen lawer,
Gloc ar y mur i gadw amser;
Mae gan Moses, Pant y Meusydd,
Gloc ar y mur i gadw'r tywydd.

LXXI. DWY FRESYCHEN.

Mi welais ddwy gabetser,
Yn uwch na chlochdy Llunden;
A deunaw gwr yn holtti 'rhain,
A phedair cainc ar hugain.

LXXII. TOI A GWAU.

Mi welais i beth na welodd pawb,--
Y cwd a'r blawd yn cerdded;
Y fran yn toi ar ben y ty,
A'r malwod yn gwau melfed.

LXXIII. MALWOD A MILGWN.

Mi welais innau falwen goch,
A dwy gloch wrth ei chlustiau;
A dau faen melin ar ei chefn,
Yn curo'r milgwn gorau.

LXXIV. GWENNOL FEDRUS.

Do, mi welais innau wennol,
Ar y traeth yn gosod pedol;
Ac yn curo hoel mewn diwrnod,--
Dyna un o'r saith rhyfeddod.

LXXV. LLYNCU DEWR.

Mi weles beth na welodd pawb,--
Y cwd a'r blawd yn cerdded,
Y fran yn toi ar ben y ty,
A'r gwr mor hy a hedeg;
A hogyn bach, dim mwy na mi,
Yn llyncu tri dyniawed.

LXXVI., LXXVII. Y DDAFAD YN Y BALA.

'Roedd gen i ddafad gorniog,
 Ac arni bwys o wlan,
Yn pori ar lan yr afon
 Ymysg y cerrig man;
Fe aeth yr hwsmon heibio,
 Hanosodd arni gi;
Ni welais i byth mo'm dafad,
 Ys gwn i a welsoch chwi?

Mi gwelais hi yn y Bala,
 Newydd werthu ei gwlan,
Yn eistedd yn ei chadair,
 O flaen tanllwyth mawr o dan;
A'i phibell a'i thybaco,
 Yn smocio'n abal ffri,
A dyna lle mae y ddafad,--
 Gwd morning, Jon, how di!

LXXVIII. IAR Y PENMAEN MAWR.

'Roedd gen i iar yn gorri,
 Ar ben y Penmaen Mawr,
Mi eis i droed y Wyddfa
 I alw arni i lawr;
Mi hedodd ac mi hedodd,
 A'i chywion gyda hi,
I ganol tir y Werddon,--
 Good morning, John! How di?

LXXIX. I BLE?

Troi a throsi, troi i ble?
I Abergele i yfed te.

LXXX. MORIO.

Fuost ti erioed yn morio?
"Do, mewn padell ffrio;
Chwythodd y gwynt fi i Eil o Man,
A dyna lle bum i'n crio."

LXXXI. LLONG FY NGHARIAD.

Dacw long yn hwyliau'n hwylus,
Heibio'r trwyn, ac at yr ynys;
Os fy nghariad i sydd ynddi,
Hwyliau sidan glas sydd arni.

LXXXII. CWCH BACH.

Cwch bach ar y mor,
A phedwar dyn yn rhwyfo;
A Shami pwdwr wrth y llyw
Yn gwaeddi,--"Dyn a'n helpo."

LXXXIII. GLAN Y MOR.

Mae gen i dy bach del,
O dy bach del, O dy bach del,
A'r gwynt i'r drws bob amser;
Agorwch dipyn o gil y dدور,
O gil y dدور, o gil y dدور,
Cewch weld y mor a'r llongau.

LXXXIV. DWR Y MOR.

Iolan bach a finnau
Yn mynd i ddwr y mor;
Iolan yn codi 'i goesau,
A dweyd fod dwr yn oer.

LXXXV. TRI.

Tri graienyn, tri maen melin,
Tair llong ar for, tri mor, tri mynydd;
A'r tri aderyn a'r traed arian,
Yn tiwnio ymysg y twyni man.

LXXXVI. WEDI DIGIO.

Mae fy nghariad wedi digio,
Nis gwn yn wir pa beth ddaeth iddo;
Pan ddaw'r gwibed bach a chywion,
Gyrraf gyw i godi ei galon.

LXXXVII. CARN FADRYN.

Mi af oddyma i ben Carn Fadrym,
Er mwyn cael gweled eglwys Nefyn;
O ddeutu hon mae'r plant yn chware,
Lle dymunwn fy mod inne.

LXXXVIII. SIGLO'R CRYD.

Siglo'r cryd a'm troed wrth bobu,
Siglo'r cryd a'm troed wrth olchi;
Siglo'r cryd ymhob hysywaeth,
Siglo'r cryd sy raid i famaeth.

LXXXIX. Y LLEUAD.

Mae nhw'n dwedyd yn Llanrhaid,
Mai rhyw deiliwr wnaeth y lleuad;
A'r rheswm am fod goleu drwyddo,
Ei fod heb orffen cael ei bwytho.

LXL. COES UN DDEL. {39}

Coes un ddel, ac hosan ddu,
Fel a'r fel, fel a'r fu;
Fel a'r fu, fel a'r fel,
Ac hosan ddu coes un ddel.

LXLI. Y BRYN A'R AFON.

Y Bryn,--"Igam Ogam, ble'r ei di?"
Yr Afon,--"Moel dy ben, nis gwaeth i ti."
Y Bryn,--"Mi dyf gwalt ar fy mhen i
Cyn unioni'th arrau ceimion di."

LXLII. DECHREU CANU.

Pan es i gynta i garu,
O gwmpas tri o'r gloch,
Mi gurais wrth y ffenestr,

Lle'r oedd yr hogen goch.

LXLIII. SIGLO.

Tri pheth sy'n hawdd eu siglo,--
Llong ar for pan fydd hi'n nofio,
Llidiart newydd ar glawdd helyg,
A march dan gyfrwy merch fonheddig.

LXLIV. ARFER PENLLYN.

Dyma arfer pobl Penllyn,--
Canu a dawnsic hefo'r delyn,
Dod yn ol wrth oleu'r lleuad,
Dwyn y llwdn llwyd yn lladrud.

LXLV. DILLAD NEWYDD.

Caf finnau ddillad newydd
O hyn i tua'r Pasg,
Mi daflaf rhain i'r potiwr,
Fydd hynny fawr o dasg;
Caf wedyn fynd i'r pentre,
Fel sowldiwr bach yn smart,
A phrynnaf wn a chledde,
I ladd 'rhen Fonipart.

LXLVI. LLE RHYFEDD.

Eglwys fach Pencarreg,
Ar ben y ddraenen wen;
A chlochdy mawr Llanbydder
Yn Nheifi dros ei ben.

LXLVII. SEL WIL Y PANT.

Pan oedd y ci ryw noson,
Yn ceisio crafu'r crochon,
'Roedd Wil o'r Pant, nai Beti Sian,
Yn cynnal bla'n i gynffon.

LXLVIII. CARIO CEILIOG.

Twm yr ieir aeth lawr i'r dre,
A giar a cheiliog gydag e;
Canodd y ceiliog,--"Go-go-go";
Gwaeddodd Twm,--"Halo! Halo!"

LXLI. FE DDAW.

Fe ddaw Gwyl Fair, fe ddaw Gwyl Ddewi,
Fe ddaw'r hwyaden fach i ddodwy.

C. CEL BACH, CEL MAWR.

Hei, gel bach, tua Chaerdydd,
'Mofyn pwn o lestri pridd;
Hei, gel mawr, i Aberhonddu,
Dwmbwr dambar, llestri'n torri.

CI. I'R DRE.

Gyrru, gyrru, drot i'r dre,
'Mofyn bara cann a the.

CII. I FFAIR HENFEDDAU.

Gyrru, gyrru, i ffair Henfedduau,
'Mofyn pinnau, 'mofyn 'falau.

CIII. I FFAIR Y RHOS.

Gyrru, gyrru, i ffair y Rhos;
Mynd cyn dydd a dod cyn nos.

CIV. I FFAIR Y FENNI.

Gyrru, gyrru, i ffair y Fenni;
'Mofyn cledd i ladd y bwci.

CV. CEL BACH DEWR.

Welwch chwi cel bach
Yn ein cario ni'n dau?
Mynd i ochor draw'r afon
Gael eirin a chnau.

CVI. CEFFYL JOHN JONES.

Mam gu, mam gu, dewch maes o'r ty,
Gael gweld John Jones ar gefn y ci.

CVII. MARI.

Mari lan, a Mari lon,
A Mari dirion doriad,
Mari ydyw'r fwyna'n fyw,
A Mari yw fy nghariad;
Ac onid ydyw Mari'n lan,
Ni wiw i Sian mo'r siarad.

CVIII. TROT, TROT.

Trot, trot, tua'r dre,
'Mofyn pwn o lestri te;
Trot, trot, tua'r dre,
I mofyn set o lestri te;
Galop, galop, tua chartre,
Torri'r pwn a'r llestri'n gate.

CIX. FFIDIL A FFON.

Mari John, ffidil a ffon,
Cyllell a bilwg i chware ding dong.

CX. ENNILL.

Sion a Siani Siencyn,
Sy'n byw yn sir y Fflint;
Sian yn ennill chweugain,
A Sion yn ennill punt.

CXI. DYNA'R FFORDD.

Dafi Siencyn Morgan,
Yn codi'r don ei hunan;
A'i isaf en e nesa i fiwn,
A dyna'r ffordd i ddechre tiwn.

CXII. ROBIN A'R DRYVV.

Robin goch a'r Dryw bach
Yn fy nghuro i fel curo sach;
Mi godais innau i fyny'n gawr,
Mi drewais Robin goch i lawr.

CXIII. Y JI BINC.

Ji binc, ji binc, ar ben y banc,
Yn pwys o hanner cant o blant.

CXIV. Y FRAN.

Shinc a Ponc a finne
Yn mynd i ffair y pinne;
Dod yn ol ar gefn y fran,
A phwys o wlan am ddime.

CXV. ROBIN GOCH.

Robin goch ar ben y rhiniog,
Yn gofyn tamaid heb un geiniog;
Ac yn dwedyd yn ysmala,--
"Mae hi'n oer, mi ddaw yn eira."

CXVI. JAC Y DO.

Si so, Jac y Do,
Dal y deryn dan y to,
Gwerthu'r fuwch a lladd y llo,
A mynd i Lunden i roi fro;
Dene diwedd Jac y Do.

CXVII. DAWNS.

Y dyrnwr yn dyrnu,
Y ffidil yn canu;
A Robin goch bach
Yn dawsio'n y beudy.

CXVIII. MYND I GARU.

Rhowch imi fenthyg ceffyl,
I fyned dros y lan,
I garu'r ferch fach ifanc
Sy'n byw 'da 'i thad a'i mham;
Ac oni ddaw yn foddus,
A'i gwaddol gyda hi,
Gadawaf hi yn llonydd,
Waith bachgen pert wyf fi.

CXIX. FY EIDDO.

Mae gennyf dy cysurus,
A melin newydd dwt,
A chwprdd yn y gornel,
A mochyn yn y cwt.

CXX. SEN I'R GWAS.

Y llebyn llo a'r gwyneb llwyd,
Ti fyti fwyd o'r goer;
Pe torrit gwys fel torri gaws,
Fe fyddai'n haws dy ddiodde.

CXXI. PRUN?

Dic Golt a gysgodd yn y cart,
Fe'i speiliwyd o'i geffyle;
A phan ddihunodd, holi wnai,--
"Ai Dic wyf fi, ai nage?
Os Dic wyf fi, ces golled flin,--
Mi gollais fy ngheffyle;
Ac os nad Dic, 'rwy'n fachgen smart,
Enillais gart yn rhywle."

CXXII. DAMWAIN.

Shigwti wen Shon-Gati,
Mae crys y gwr heb olchi,
Fe aeth yr olchbren gyda'r nanf,
A'r wraig a'r plant yn gwaeddi.

CXXIII. COED TAN.

Gwern a helyg
Hyd Nadolig.
Bedw, os cair,
Hyd Wyl Fair;
Cringoed caeau
O hynny hyd Glamai;
Briwydd y fran
O hynny ymlaen.

CXXIV. FFAIR PWLLHELI.

Aeth fy Ngwen i ffair Pwllheli,
Eisio padell bridd oedd arni;
Rhodd am dani saith o sylltau,
Cawswn i hi am dair a dimau.

CXXV. BORE GOLCHI.

Aeth fy Ngwen ryw fore i olchi,
Eisio dillad glan oedd arni;
Tra bu Gwen yn 'mofyn sebon,
Aeth y dillad hefo'r afon.

CXXVI. BORE CORDDI.

Aeth fy Ngwen ryw fore i gorddi,
Eisio menyn ffres oedd arni;
Tra bo Gwen yn 'mofyn halen,
Aeth y ci a'r menyn allan.

CXXVII. SEREN DDU.

Seren ddu a mwnci,

Sion y gof yn dyrnu,
Modryb Ann yn pigo pys,
A minnau'n chwys dyferu.

CXXVIII. BENTHYG LLI.

Si so gorniog,
Grot a pheder ceiniog,
Un i mi, ac un i chwi,
Ac un i'r dyn,
Am fenthyg y lli gorniog.

CXXIX. LLAWER O HONYNT.

Ceiliog bach y Wyddfa
Yn canu ar y bryn,
Hwyaid Aber Glaslyn
Yn nofio ar y llyn;
Gwyddau Hafod G'regog
Yn gwaeddi "wich di wach,"
A milgwn Jones Ynysfor
Ar ol y llwynog bach.

CXXX. LLE MAE PETHAU.

Mae yn y Bala flawd ar werth,
Mae'n Mawddwy berth i lechu,
Mae yn Llyn Tegid ddwr a gro,
Mae'n Llundain o i bedoli;
Ac yng Nghastell Dinas Bran
Mae ffynnon Ian i ymolchi.

CXXXI. HEN LANC.

Briodi di?
Na wnaf byth!
Wyt ti'n siwr?
Ydw'n siwr.

Hen lanc yn byw fy hunan
Ydwyt fi;
Yn meddu cwrs o arian,
Ydwyt fi;
Yn meddwl am briodi?
Priodi, na wnaf byth;

Waeth beth fydd gennyl wedyn,
Ond poenau lond fy nyth.

CXXXII. CARU FFYDDLON.

Mae nhw'n dwedyd ac yn son
Mod i'n caru yn sir Fon;
Minne sydd yn caru'n ffyddlon
Dros y dwr yn sir Gaernarfon.

CXXXIII. CARU YMHELL.

Caru yng Nghaer, a charu yng Ngorwen,
Caru yn Nyffryn Clwyd a Derwen;
Caru 'mhellach dros y mynydd,
Cael yng Nghynwyd gariad newydd.

CXXXIV. ELISABETH.

Elisabeth bach, a briodwch chwi fi?
Dyma'r amser gore i chwi;
Tra bo'r drym yn mynd trwy'r dre,
Tra bo'ch calon bach yn ei lle.

CXXXV. SHONTYN.

Shontyn, Shontyn, y gwr tynn;
Clywed y cwbl, a dweyd dim.

CXXXVI. GLAW.

Mae'n bwrw glaw allan,
Mae'n hindda'n y ty,
A merched Tregaron
Yn chwalu'r gwlan du.

CXXXVII. Y CARWR TRIST.

Bachgen bach o Ddowles,
Yn gweithio'n ngwaith y tan,
Bron a thorri 'i galon

Ar ol y ferch fach lan;
Ei goesau fel y pibau,
A'i freichiau fel y brwyn,
Ei ben e fel pytaten,
A hanner llath o drwyn.

CXXXVIII. JOHN.

Ar y ffordd wrth fynd i Lerpwl,
Gwelais Iohn ar ben y cwpwr;
Gofynnus iddo beth oedd o'n wneyd;
"Bwyta siwgwr, paid a deyd."

CXXXIX. BREUDDWYD.

Gwelais neithiwr, drwy fy hun,
Lanciau Llangwm bod yg un;
Rhai mewn uwdd, a rhai mewn llymru,
A rhai mewn buddai, wedi boddri.

CXL. PEDOLI, PEDINC.

Pedoli, pedoli, pe-dinc,
Mae'n rhaid i ni bedoli
Tae e'n costio i ni bunt;
Pedol yn ol, a phedol ymlaen,
Pedol yn eise o dan y droed ase,--
Bi-dinc, bi-dinc, bi-dinc.

CXLI. PEDOLI, PEDROT.

Pedoli, pedoli, pedoli, pe-drot,
Mae'n rhaid i ni bedoli
Tae e'n costio i ni rot;
Pedol yn ol, a phedol ymlaen,
Pedol yn eise o dan y droed ase,--
Bi-drot, bi-drot, bi-drot.

CXLII. PEDOLI'R CEFFYL GWYN.

Pedoli, pedoli, pe-din,
Pedoli'r ceffyl gwyn;
Pedoli, pedoli, pe-doc,

Pedoli'r ebol broc.

CXLIII. ROBIN DIR-RIP.

Robin dir-rip,
A'i geffyl a'i chwip;
A'i gap yn ei law,
Yn rhedeg trwy'r baw.

CXLIV. GWCW!

"Gw-Cw!" medd y gog,
Ar y gangen gonglog;
"Gw-cw!" medd y llall,
Ar y gangen arall.

CXLV. GARDYSON.

Shoni moni, coesau meinion,
Cwtws y gath yu lle gardyson.

CXLVI. ESGIDIAU.

Lle mae 'i sgidie?
Pwy sgidie?
Sgidie John.
Pwy John?
John diti.
Pwy diti?
Diti 'i fam.
Pwy fam?
I fam e'.
Pwy e'?
E' 'i hunan.

CXLVII. ROBIN GOCH.

Robin goch ar ben y rhiniog,
A'i ddwy aden yn anwydog;
Ac yn dwedyd yn ysmala,--
"Mae hi'n oer, mi ddaw yn eira."

CXLVIII. CHWARE.

Canwch y gloch!
(Tynnu yn un o'r cudynau gwallt)
Curwch y drws!
(Taro'r talcen a'r bys)
Codwch y glicied!
(Gwasgu blaen y trwyn i fyny)
Dowch i mewn, dowch i mewn, dowch i mewn!
(Rhoi'r bys ar y wefus).

CXLIX. CARIAD.

Mae gen i gariad glan, glan,
Gwrid coch a dannedd man;
Ei dwy ael fel ede sidan,
Gwallt ei phen fel gwiall arian.

CL. DEWIS OFER.

Mynd i'r ardd i dorri pwysi,
Gwrthod lafant, gwrthod lili;
Pasio'r pinc a'r rhosod cochion,
Dewis pwysi o ddanadl poethion.

CLI. LADI FACH BENFELEN.

Ladi bach benfelen,
Yn byw ar ben y graig,
Mi bobith ac mi olchith,
Gwnaiff imi burion gwraig;
Mi startsith ac mi smwddith,
Gwnaiff imi burion bwyd,
Fe wnaiff i'r haul dywynnu
Ar ben y Garreg Lwyd.

CLII. CYDYMDEIMLAD.

Trueni mawr oedd gweled
Y merlyn bach diniwed,
Ac arno fe y chwys yn drwyth,
Wrth lusgo llwyth o ddefed.

CLIII. APEL.

Glaw bach, cerr ffordd draw,
A gad i'r haul ddod yma.

CLIV. SAETHU LLONGAU.

Welsoch chwi wynt, welsoch chwi law?
Welsoch chwi dderyn bach ffordd draw?
Welsoch chwi ddyn a photasen ledr,
Yn saethu llongau brenin Lloegr?

CLV. CEINIOG I MI.

Si so, si so,
Deryn bach ar ben y to;
Ceiniog i ti,
Ceiniog i mi,
A cheiniog i'r iar am ddodwy,
A cheiniog i'r ceiliog am ganu.

CLVI. Y TYWYDD.

Bys i fyny, teg yfory;
Bys i lawr, glaw mawr.

CLVII., CLVIII. CALANMAI.

Daw Clame, daw Clame,
Daw dail ar bob twyn,--
Daw meistr a meistres
I edrych yn fwyn.

A minne, 'rwy'n coelio,
Yn hela i'm co,
I'r gunog laeth enwyn
Fod ganwaith dan glo.

CLIX. CATH DDU.

Amen, person pren,
Cath ddu a chynffon wen.

CLX. MYND A DOD.

Hei ding, diri diri dywn,
Gyrru'r gwyddau bach i'r cawn;
Dwad 'nol yn hwyr brynhawn,
A'u crombilau bach yn llawn.

CLXI. GYRU GWYDDAU.

Hen wraig bach yn gyrru gwyddau,
Ar hyd y nos;
O Langollen i Ddolgellau,
Ar hyd y nos;
Ac yn dwedyd wrth y llanciau,
"Gyrrwch chwi, mi ddalaf finnau,"
O Langollen i Ddolgellau,
Ar hyd y nos.

CLXII. BWRW EIRA.

Hen wraig yn pluo gwyddau,
Daw yn fuan ddyddiau'r gwyliau.

CLXIII. BETH SYDD GENNYF.

Mae gen i iar, mae gen i geiliog,
Mae gen i gywen felen gopog;
Mae gen i fuwch yn rhoi i mi lefrith,
Mae gen i gyrnen fawr o wenith.

CLXIV. TAIR GWYDD.

Gwydd o flaen gwydd,
Gwydd ar ol gwydd,
A rhwng pob dwy wydd, gwydd;
Sawl gwydd oedd yno?

CLXV., CLXVI. CARIAD Y MELINYDD.

Mi af i'r eglwys Ddywsul nesa,

Yn fy sidan at fy sodla;
Dwed y merched wrth eu gilydd,--
"Dacw gariad Wil Felinydd."
Os Wil Felinydd wyf yn garu,
Rhoddaf bupur iddo falu;
Llefrith gwyn i yruru'r felin,
A chocos arian ar yr olwyn.

CLXVII. CARIAD ARALL.

Mae'n dda gen i fuwch,
Mae'n dda gen i oen,
Mae'n dda gen i geffyl
Yn llydan ei ffroen;
Mae'n dda gen i'r adar
Sy'n canu yn y llwyn.
Mae'n dda gen i fachgen
A chrbw ar ei drwyn;
A thipyn bach bach o ol y frech wen,
Yn gwisgo het befer ar ochor ei ben.

CLXVIII. GWRAIG.

Mi fynnai wraig, mi wranta,
Caiff godi'r bore'n nghynta;
Troed yn ol a throed ymlaen,
A throed i gicio'r pentan.

CLXIX., CLXX. PRY BACH. {63}

Pry bach yn mynd i'r coed,
Dan droi 'i ferrau, dan droi 'i droed;
Dwad adre yn y bore,
Wedi colli un o'i sgidie.

Pry bach yn edrych am dwll,
Yn edrych am dwll, yn edrych am dwll,
Pry bach yn edrych am dwll,
A DYMA dwll, dwll, dwll, dwll.

CLXXI. Y BYSEDD.

Bowden,
Gwas y Fowden,
Libar labar,

Gwas y stabal,
Bys bach, druan gwr,
Dorrodd 'i ben wrth gario dwr
I mam i dylino.

CLXXII. CHWARE'R BYSEDD.

"I'r coed," medde Modryb y Mawd,
"I be?" medde Bys yr Uwd;
"I ladrata," medde Hirfys;
"Beth os dalian ni?" medde'r Canol-fys;
"Dengwn, dengwn, rhag iddo'n dal ni,"
Medde'r Bys Bach.

CLXXIII. BWGAN.

Bwgan bo lol, a thwll yn 'i fol,
Digon o le i geffyl a throl.

CLXXIV. YR ENETH BENFELEN.

Mae geneth deg ben-felen
Yn byw ym Mhen y Graig,
Dymunwn yn fy nghalon
Gael honno imi'n wraig;
Hi fedr bobî a golchi,
A thrin y tamaid bwyd,
Ac ennill llawer ceiniog
Er lles y bwthyn llwyd.

CLXXV. Y WYLAN.

Y wylan fach adnebydd
Pan fo'n gyfnewid tywydd;
Hi hed yn deg, ar aden wen,
O'r mor i ben ymynydd.

CLXXVI. FY NGHARIAD.

Dacw 'nghariad ar y dyffryn,
Llygaid hwch a dannedd mochyn;
A dau droed fel gwadn arad,
Fel dyllhuan mae hi'n siarad.

CLXXVII. DAU DDEWR.

Dau lanc ifanc yn mynd i garu,
Ar noswaith dywell fel y fagddu;
Swn cacynen yn y rhedyn
A'u trodd nhw adre'n fawr eu dychryn.

CLXXVIII. LLANC.

Mi briodaf heddyw yn ddi-nam,
Heb ddweyd un gair wrth nhad na mam.

CLXXIX. YMFFROST.

Chwarelwr {67} oedd fy nhaid,
Chwarelwr oedd fy nhad;
Chwarelwr ydwyt finnau,
Y goreu yn y wlad;
Chwarelwr ydyw'r baban
Sy'n cysgu yn ei gryd,
Ond tydi o'n beth rhyfedd
Ein bod ni'n chwarelwyr i gyd?

CLXXX. Y RHYBELWR BACH. {68}

Rhybelwr bychan ydwyt,
Yn gweithio hefo nhad,
Mi allaf drin y cerrig
Yn well na neb o'r wlad;
'Rwy'n medru naddu Princes,
Y Squares, a'r Counties bach,
Cyn hir caf finnau fargen,
Os byddaf byw ac iach.

CLXXXI. LLIFIO.

Lifio, lifio, lifio'n dynn,
Grot y dydd y flwyddyn hyn;
Os na lifiwn ni yn glau,
'Nillwn ni ddim grot yn dau.

CLXXXII. GOLCHI LLESTRI.

Dorti, Dorti, bara gwyn yn llosgi,
Dwr ar y tan i olchi'r llestri.

CLXXXIII. CAP.

Morus y gwynt,
Ac Ifan y glaw,
Daflodd fy nghap
I ganol y baw.

CLXXXIV. CLOCS.

Mae gen i bar o glocs,
A rheini'n bar go dda,
Fe barant dros y gaea,
A thipyn bach yr ha;
Os can nhw wadnau newydd,
Fe barant dipyn hwy;
A saith a dime'r glolsen,
A phymtheg am y ddwy.

CLXXXV. GLAW.

Glaw, glaw, cerdda draw;
Haul, haul, tywynna.

CLXXXVI. MERCHED DOL 'R ONNEN.

Mae'n bwrw glaw allan,
Mae'n deg yn y ty,
A merched Dol 'r Onnen
Yn cribo'r gwlan du.

CLXXXVII. LLIW'R GASEG.

Caseg winnau, coesau gwynion,
Groenwen denau, garnau duon;
Garnau duon, groenwen denau,
Coesau gwynion, caseg winnau.

CLXXXVIII. BERWI POTEN.

Hei, ding-a-ding, diri,
Mae poten yn berwi,
Shini a Shani yn gweithio tan dani;
Shani'n ei phuro a phupur a fflwr,
Ychydig o laeth, a llawer o ddwr.

CLXXXIX. WRTH Y TAN.

Dorti, Dorti, bara gwyn yn llosgi,
Dwr ar y tan i olchi'r llestri;
Crafwch y crochan gael creifion i'r ci,
A hefyd gwnewch gofio
Rhoi llaeth i'r gath ddu.

CXC. PAWB WRTHI.

Y ci mawr yn pobi,
Y ci bach yn corddi,
A'r gath ddu yn golchi
 Ei gwyneb yn lan;
Y wraig yn y popty
Yn gwylia'r bara'n crasu,
A'r llygod yn rhostio
 Y cig wrth y tan.

CXCI., CXCII. TE A SIWGR GWYN.

Hen ferched bach y pentre,
Yn gwisgo capie lasie,
 Yfed te a siwgr gwyn,
A chadw dim i'r llancie.

Bara a llaeth i'r llancie,
Ceirch i'r hen geffyle,
 Cic yn ol, a chic ymlaen,
A dim byd i'r genod.

CXCIII. SI SO.

Si so, jac y do,
Yn gwneyd ei nyth drwy dyllu'r to,

Yn gwerthu'r mawn a phrynnu'r glo,
Yn lladd y fuwch a blino'r llo,
Yn cuddio'r arian yn y gro,
A mynd i'r Werddon i roi tro,
Si so, jac y do.

CXCIV. I'R SIOP.

Mae gen i ebol melyn
Yn codi'n bedair oed,
A phedair pedol arian
O dan ei bedwar troed;
I'r siop fe geiff garlamu,
I geisio llonnaid sach
O de a siwgr candi
I John a Mari fach.

CXCV. CADW CATH DDU.

Mae gen i gath ddu,
Fu erioed ei bath hi,
Hi gurith y clagwydd,
Hi dynnith ei blu;
Mae ganddi winedd a barf,
A rheini mor hardd,
Hi helith y llygod
Yn lluoedd o'r ardd;
Daw eilwaith i'r ty,
Hi gurith y ci,--
Mi rawn i chwi gyngor
I gadw cath ddu.

CXCVI. NEWID BYD.

Ar ol bod yn ferch ifanc,
A gwisgo fy ffrog wen,
A'm gwallt i wedi ei blethu
Fel coron ar fy mhen;
A'm sgidiau wedi eu polsio,
A'r rheiny'n cau yn glos,--
Ar ol i mi briodi
Rhaid i mi wisgo clocs.

CXCVII. SIOM.

'Rown i'n meddwl, ond priodi,
Na chawn i ddim ond dawnvio a chanu;
Ond y peth a ges i wedi priodi,
Oedd siglo'r cryd a suo'r babi.

CXCVIII. RHY WYNION.

Mae mam ynghyfraith, hwnt i'r afon,
Yn gweld fy nillad yn rhy wynion;
Mae hi'n meddwl yn ei chalon
Mai 'mab hi sy'n prynnu'r sebon.

CXCIX. DIM GWAITH.

Ysgafn boced, dillac llwyd,
Mawr drugaredd yw cael bwyd;
Mynd o gwmpas, troi o gwmpas,
Ar hyd y fro;
Ymofyn gwaith, dim gwaith,
Trwm yw'r tro.

CC. PWY FU FARW?

Pwy fu farw?
"Sion Ben Tarw."
Pwy geiff y gwpan?
"Sion Ben Tympan."
Pwy geiff y llwy?
"Pobol y plwy."

CCI. P'LE MAE DY FAM?

Titw bytaten, i ble'r aeth dy fam?
Hi aeth i lygota a chafodd beth cam;
Gwraig y ty nesaf a'i triniodd hi'n frwnt,
Hi gurodd ei dannedd yng nghaead y stwnt.

CCII. DAU ROBIN.

Crio, crio, crio,
Mae Robin ni yn groch;
Canu, canu, canu,
O hyd, mae Robin goch.

CCIII., CCIV. SION.

Sion i fyny, Sion i wared,
Sion i garthu tan y gwartheg;
Sion a wyr yn well na'r merched
Pa sawl torth a wneir o beced.

Fe geir pedair torth o phioled,
Fe geir wyth o hanner peced;
